

# Case study: Noah's Ark Nursery, Narberth, Pembrokeshire - Promoting Tax-Free Childcare

Noah's Ark Nursery, Narberth



## Background of the Nursery

Noah's Ark childcare runs from a chapel building in the centre of Narberth, the building itself dates back to 1858 and was previously used as a chapel with the last services taking place in November 2008.

It has a grade 2 listing on the external structure and therefore there are certain restrictions in place, this includes single glazed windows with wooden frames, a specific colour on the outside walls and not being able to change the outward look of the building.

The building was renovated in 2009/2010 with a new roof being fitted and a lot of external work completed leading to eventual registration and opening of the childcare setting on the 1st March 2010.

Starting with a day nursery section only, adding after school club and holiday club care in 2012. Our nursery is registered with Care Inspectorate Wales and registered for a 67-place nursery. We are open 7.30 am – 6.00pm, 51 weeks of the year.

Offering a day nursery for 0–4-year-olds, an after-school club during term time for Narberth, Tavern spite & Templeton Schools and a Holiday Club during school holidays for 3–12-year-old children from a variety of local schools. The childcare offer is available here

## Our Mission Statement at Noah's Ark Nursery:



At Noah's Ark we are a confident, committed team, who are focused on providing quality care and education. Staff are happy and friendly and welcome both you and your child into our nursery life, in our home from home environment. We are specialised in providing for all of your child's individual needs. Through hands on playful experiences, we inspire curiosity, awe and wonder within our children.

### How do you promote Tax-Free Childcare and why?

When a parent/carer comes for a show around, we openly discuss the Tax-Free Childcare. We always recommend they check the [Childcare Choices website](#) to see if they qualify before signing up with us. As people's circumstances could change over time, we continue to share information on our website, family app and social media pages.

We always remind parents to check if they qualify when we have to inform them of increasing prices. Once they have applied for Tax-Free Childcare, each child is given a unique code, so it is easy for us to identify payments when they come into the account. Our parents/carers have said they can find us easily when registering on the system and it was easy to set up from a provider perspective.

#### It was lovely to read the parents comments too:

**Parent 1** *"Tax-free childcare is a fantastic scheme that means we save 20% on our bill each month. It is an easy system to use and was very easy to complete the initial application. We have to check the information on the account every three month, but it's all there ready. We just have to confirm or amend any changes".*

**Parent 2** *"Tax-free childcare has relieved some of the pressures for us with meeting our childcare costs. I wasn't aware of it and having put our older child through childcare without it, I have really noticed the difference now. I believe it was easy to complete the application, as I can't actually remember doing it, so it couldn't have been that bad!"*

**Parent 3** *"It has made a big difference, has helped to save on nursery fees for both my children. Which means I can put them in for more days. It was fairly easy to complete online and to add a second child on".*

## Noah's Ark Nursery stated:

*"Cost of living is difficult for families, and we want to help them to get support with their childcare costs, and easy payments receipt for our business too".*

Case study: TITLE Noah's Ark Nursery, Narberth, Pembrokeshire - Promoting Tax-Free Childcare V0.1 – March, 2024

## Further support

[Childcare Choices website](#)

# Meithrinfa Noa's Ark, Arberth, Sir Benfro - Hyrwyddo Gofal Plant Di-dreth

Meithrinfa Noa's Ark, Arberth



## Cefndir y Feithrinfa

Mae gofal plant Noa's Ark yn rhedeg o gapel yng nghanol Arberth. Mae'r adeilad ei hun yn dyddio'n ôl i 1858 ac fe'i defnyddiwyd yn flaenorol fel capel, gyda'r gwasanaethau olaf yn digwydd ym mis Tachwedd 2008.

Mae rhestriad gradd 2 ar y strwythur allanol sy'n golygu cyfyngiadau penodol - mae hyn yn cynnwys ffenestri gwydr sengl gyda fframiau pren, lliw penodol ar y waliau allanol ac nid oes modd newid golwg allanol yr adeilad.

Adnewyddwyd yr adeilad yn 2009/2010, gyda tho newydd wedi'i osod ynghyd â llawer o waith allanol wedi'i gwblhau, gan arwain at gofrestru ac agorwyd y lleoliad gofal plant yn y pen draw ar 1 Mawrth 2010.

Dechreuwyd gydag adran meithrin ddydd yn unig, ac ychwanegu clwb ar ôl ysgol a gofal clwb gwyliau yn 2012. Mae ein meithrinfa wedi'i chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ac wedi'i chofrestru ar gyfer meithrinfa gyda lleoedd ar gyfer 67 o blant. Rydym ar agor rhwng 7.30 am a 6.00 pm, 51 wythnos y flwyddyn.

Rydym yn cynnig meithrinfa ddydd ar gyfer plant 0–4 oed, clwb ar ôl ysgol yn ystod amser tymor ar gyfer Ysgolion Arberth, Tavern Spite a Thempleton a Chlwb Gwyliau yn ystod gwyliau ysgol ar gyfer plant 3–12 oed o amryw ysgolion lleol. Mae'r cynnig gofal plant ar gael yma.

## Ein Datganiad Cenhadaeth ym Meithrinfa Noah's Ark:



Ym Meithrinfa Noah's Ark, rydym yn dîm hyderus ac ymrwymedig, sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal ac addysg o ansawdd. Mae'r staff yn hapus ac yn gyfeillgar ac yn croesawu chi a'ch plentyn i'n bywyd meithrin, yn ein hamgylchedd cartref o gartref. Rydym yn arbenigo mewn darparu ar gyfer holl anghenion unigol eich plentyn. Drwy brofiadau chwareus uniongyrchol, rydym yn ysbrydoli chwilfrydedd a rhyfeddod yn ein plant.

## Sut ydych chi'n hyrwyddo Gofal Plant Di-dreth a pham?

Pan fydd rhiant/gofalwr yn ymweld â ni, rydym yn trafod gofal plant di-dreth yn agored. Rydym bob amser yn argymhell iddynt wirio gwefan [Dewisiadau Gofal Plant](#) i weld os ydyn nhw'n gymwys cyn cofrestru gyda ni. Gan all sefyllfaoedd pobl newid dros amser, rydym yn parhau i rannu gwybodaeth ar ein gwefan, ein hap teuluol a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Rydym bob amser yn atgoffa rhieni i wirio os ydynt yn gymwys pan mae rhaid i ni roi gwybod iddynt am godi prisiau. Unwaith y byddant wedi ymgeisio am gofal plant di-dreth, caiff pob plentyn gôd unigryw, felly mae'n hawdd i ni adnabod taliadau pan fyddant yn dod i mewn i'r cyfrif. Mae ein rhieni/gofalwyr wedi dweud eu bod yn gallu ein ffeindio'n hawdd wrth gofrestru ar y system ac roedd yn hawdd ei sefydlu o safbwynt darparwr.

Roedd yn hyfryd darllen sylwadau'r rhieni hefyd:

### Rhiant 1

*"Mae gofal plant di-dreth yn gynllun gwych sy'n golygu ein bod yn arbed 20% ar ein bil bob mis. Mae'n system hawdd i'w defnyddio ac roedd yn hawdd iawn cwblhau'r cais cychwynnol. Rhaid inni wirio'r wybodaeth ar y cyfrif bob tair mis, ond mae'r holl wybodaeth yno'n barod. Yr unig beth sydd angen ni wneud yw cadarnhau neu ddiwygio unrhyw newidiadau".*

### Rhiant 2

*"Mae gofal plant di-dreth wedi rhyddhau peth o'r pwysau arnom ni wrth dalu ein costau gofal plant. Nid oeddwn yn ymwybodol ohono ac ar ôl rhoi ein plentyn hŷn drwy ofal plant hebddo, dwi wir wedi sylwi ar y gwahaniaeth nawr. Credaf ei fod yn hawdd cwblhau'r cais, gan na allaf gofio ei wneud mewn gwirionedd, felly ni allai fod wedi bod mor ddrwg â hynny!".*

### Rhiant 3

*"Mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr, mae wedi helpu i arbed ar ffioedd meithrinfa ar gyfer fy mhlant i gyd. Mae hynny'n golygu y gallaf eu rhoi i mewn am fwy o ddyddiau. Roedd yn eithaf hawdd cwblhau ar-lein ac ychwanegu ail blentyn".*

## Dywedodd Feithrinfa Noah's Ark:

*"Mae costau byw yn anodd i deuluoedd, ac rydym am eu helpu i gael cefnogaeth gyda'u costau gofal plant, a derbyn taliadau hawdd i'n busnes hefyd".*

Case study: TITLE Noah's Ark Nursery, Narberth, Pembrokeshire - Promoting Tax-Free Childcare V0.1 – March, 2024

## Further support

[Childcare Choices website](#)